Dŵr Cymru
Welsh Water

# Dŵr sy'n Gollwng

## Cod Ymarfer

## Open Water

# Mae dŵr yn adnodd gwerthfawr, ac mae hi'n fuddiol i ni i gyd sicrhau ein bod yn ei ddefnyddio'n ddoeth.

Mae lleihau colledion dŵr, trwsio gollyngiadau ar ein prif bibellau ac atal byrstiau'n flaenoriaeth bwysig i ni. Mae gennym dimau arbenigol yn gweithio ddydd a nos i chwilio am ollyngiadau cudd ar ein pibellau danddaear.

Fodd bynnag, mae peth o'r dŵr sy'n cael ei golli'n dod o bibellwaith y cwsmeriaid eu hunain. Mae yna nifer o fanteision i drwsio gollyngiadau; mae'n arbed arian i gwsmeriaid ar eu biliau, mae'n well i'r amgylchedd, ac mae dŵr sy'n gollwng o bibellau'n gallu difrodi ffyrdd a sylfeini adeiladau, felly mae atal gollyngiadau a'u trwsio'n gyflym yn fuddiol i bawb.

Os gwelwch chi ddŵr yn gollwng, neu os ydych chi'n amau bod gollyngiad, rhowch wybod i ni trwy ffonio **0800 260 5051** rhwng 8am a 6pm neu **0800 260 5053** rhwng 6pm ac 8am.

Mae'r daflen hon yn esbonio:

— beth i'w wneud os oes dŵr yn gollwng yn eich eiddo

— pwy sy'n gyfrifol am drwsio'r broblem

— a phryd y gallai fod hawl gennych gael lwfans.

# Pwy sy'n gyfrifol am drwsio dŵr sy'n gollwng?

## Ein prif bibellau a phibellau dŵr

Ni sy'n gyfrifol am yr holl bibellwaith hyd at y ffin â'r stryd lle mae ein prif bibell fel rheol. Mae hynny'n cynnwys:

— Prif bibellau dŵr;

— Stoptapiau yn y ffordd neu'r palmant;

— Pibellwaith rhwng y brif bibell a'r ffin â'r stryd, sef y bibell gyswllt.

Ni sy'n gofalu am ein prif bibellau dŵr a'n pibellau cyswllt ein hunain, a byddwn ni'n cyflawni gwaith cynnal a thrwsio arnynt yn rheolaidd. Mae gennym raglen helaeth o waith i drwsio hen brif bibellau sydd mewn cyflwr gwael hefyd er mwyn lleihau nifer y gollyngiadau a byrstiau arnynt.

## Eich cyflenwad dŵr a'ch pibellau mewnol

Chi sy'n gyfrifol am:

— Eich pibell gyflenwi breifat, sef y bibell sy'n cysylltu â'n pibell gyswllt ni ac yn rhedeg i mewn i'ch cartref neu'ch safle busnes; a'ch

— Holl bibellwaith a ffitiadau mewnol.

Chi sy'n gyfrifol am y bibell gyflenwi i gyd, o'ch eiddo i ffin y stryd lle mae ein prif bibell ni (neu i'r brif bibell ei hun os nad yw'r brif bibell yn y stryd), hyd yn oed os yw'n pasio trwy eiddo neu dir pobl eraill.


Os yw eich eiddo cryn bellter o'n prif bibell ddŵr, mae'n debygol y bydd pibell gyflenwi hir iawn gennych, ac mewn ambell i achos, gallech rannu cyfrifoldeb dros y bibell gyflenwi ag eiddo cyfagos. Os oes unrhyw gwestiwn gennych am eich cyfrifoldeb am bibellwaith, ffoniwch ni ar **0800 260 5051**.

Os yw pwysedd eich dŵr wedi disgyn, os gwelwch chi ardaloedd o leithder neu byllau dŵr y tu allan mewn tywydd sych, os clywch chi bibellwaith swnllyd, neu os cewch fil mesuredig anarferol o uchel, mae'n bosibl bod dŵr yn gollwng.

Mae cymorth i brofi am ollyngiadau yn **dwrcymru.com**

Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n chwilio i weld a yw'ch polisi yswiriant yn cynnwys eich holl bibellwaith a ffitiadau.


# Domestig




**Ni sy'n berchen arnynt ac yn eu hatgyweirio**
Rydym yn eu cynnal ac yn atgyweirio gollyngiadau cyn gynted ag y gallwn.

**Eich pibellau cyflenwi preifat**
Chi sy'n berchen arnynt chi ond, yn ddarostyngedig i amodau penodol, efallai y byddwn yn cynnig eu hatgyweirio am ddim.

**Eich pibellau a gosodion mewnol**
Chi sy'n berchen arnynt ac yn eu hatgyweirio.





**Ein cyfrifoldeb**
- Prif bibell ddŵr
- Pibell gysswllt

**Cyfrifoldeb y cwsmer**
- Pibell gyflenwi breifat
- Pibell gyflenwi breifat a rennir

- Ffin yr eiddo
- Tap stop/Mesurydd
- Ffin y stryd

## Annomestig




**Ni sy'n berchen arnynt ac yn eu hatgyweirio**


Rydym yn eu cynnal ac yn atgyweirio gollyngiadau cyn gynted ag y gallwn.

**Eich pibellau cyflenwi preifat**

Chi sy'n berchen arnynt ond, yn ddarostyngedig i amodau penodol, efallai y byddwn yn cynnig eu hatgyweirio am ddim.

**Eich pibellau a gosodion mewnol**

Chi sy'n berchen arnynt ac yn eu hatgyweirio.




**Ein cyfrifoldeb**

- Prif bibell ddŵr
- Pibell gyswllt

**Cyfrifoldeb y cwsmer**

- Pibell gyflenwi breifat
- Pibell gyflenwi breifat a rennir

- Ffin yr eiddo
- Tap stop/Mesurydd
- Ffin y stryd

# Dod o hyd i ollyngiadau

## Ar ein prif bibellau a'n pibellau dŵr

Mae gennym raglen helaeth 24 awr y dydd i ddod o hyd i ollyngiadau ar ein prif bibellau a'n pibellau dŵr. Rydyn ni'n dibynnu arnoch chi hefyd i roi gwybod i ni os gwelwch chi ddŵr yn gollwng yn y ffordd, ar balmant neu yn unrhyw le arall.

Rydyn ni'n trwsio gollyngiadau ar y prif bibellau a'r pibellau dŵr sydd yn ein perchnogaeth ni cyn gynted ag y gallwn ni, ac yn adnewyddu pibellau sydd mewn cyflwr gwael yn rhan o'n rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw. Er ein bod ni'n gwneud pob ymdrech i drwsio gollyngiadau'n gyflym, mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n gweithio'n ddiogel, ac mae'n bosibl y bydd angen i ni gael caniatâd yr Awdurdod Priffyrdd cyn y gallwn weithio ar lwybr neu ffordd.

## Ar eich pibell cyflenwi dŵr a'ch pibellau mewnol

Os ydyn ni'n amau neu'n canfod bod dŵr yn gollwng ar eich cyflenwad, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi.

Os cewch chi fil mesuredig anarferol o uchel, gallai hynny fod yn arwydd fod dŵr yn gollwng yn rhywle.

Os oes mesurydd dŵr gan eich eiddo, rydyn ni'n argymell eich bod chi'n cymryd darlleniadau rheolaidd o'r mesurydd (os yw'n ddiogel i chi wneud hynny).

Os yw eich mesurydd y tu allan, gallwch gyflawni prawf syml i weld a oes dŵr yn gollwng ar eich pibell gyflenwi trwy ddilyn y cyfarwyddiadau hyn:

- Caewch y stoptap y tu fewn i'ch cartref (o dan y sinc yn y gegin fel rheol)
- Gwnewch yn siŵr fod llif y dŵr wedi ei atal trwy droi tap dŵr oer y gegin
- Darllenwch y mesurydd (os yw'n ddiogel i chi wneud hynny)
- Gadewch y stoptap ar gau, a darllenwch y mesurydd eto ymhen hanner awr.

Ni ddylai deial y mesurydd fod wedi symud dim am nad ydych chi wedi defnyddio unrhyw ddŵr.

Os yw'r deial wedi symud, efallai bod dŵr yn gollwng rhwng y mesurydd a'r stoptap yn eich cartref.

Os ydych chi'n meddwl bod dŵr yn gollwng ar bibell gyflenwi eich cartref neu'ch pibellau mewnol, neu os yw'r mesurydd y tu fewn i'ch eiddo, ffoniwch ni ar **0800 260 5051**. Byddwn ni'n trefnu ymweliad ac yn rhoi gwybod i chi beth y gallwn ei wneud i helpu i drwsio'r broblem.

Mae hi'n bwysig trwsio gollyngiadau cyn gynted â phosibl.

# Beth fydd yn digwydd os oes dŵr yn gollwng?

**Eich cyfrifoldeb cyfreithiol chi yw trwsio unrhyw ollyngiadau ar eich pibell gyflenwi dŵr a'ch pibellwaith a ffitiadau mewnol cyn pen 30 diwrnod calendr o'r dyddiad pan fyddwn i'n eich hysbysu am y broblem.**

Os na fydd hynny'n digwydd, gallwn gyfeirio'r achos at ein tîm Cyfreithiol, a fydd yn cysylltu â chi i gymryd camau pellach.

Rydyn ni'n cynnig gwahanol lefelau o gymorth yn dibynnu o ble mae'r dŵr yn gollwng:

## Dŵr yn gollwng o'ch pibell gyflenwi dŵr

Er taw eich cyfrifoldeb chi yw trwsio'ch pibell gyflenwi sy'n gollwng, byddwn ni'n eich cynorthwyo gymaint â phosibl trwy'r broses.

I gwsmeriaid Preswyl, fe wnawn ein gorau i fynd at wraidd y gollyngiad i chi ar yr amod:

- Bod y gollyngiad ar eich pibell gyflenwi allanol
- Y gallwn ganfod ble mae'ch pibell gyflenwi'n rhedeg
- Bod y gollyngiad yn ddigon mawr i gael ei ganfod gan ddefnyddio offer canfod gollyngiadau'r tîm
- Nad yw'r gollyngiad ar eich rhan chi o'r bibell gyflenwi sy'n rhedeg o dan eich eiddo, wal, sied, garej neu unrhyw fath o strwythur.

I gwsmeriaid Dibreswyl, efallai gallwn helpu i gynnig arweiniad ar sut i ddod o hyd i ollyngiadau.

Yn anffodus, bydd yna achosion pan na fyddwn ni'n gallu ffeindio lleoliad y gollyngiad i chi. Pan fo hynny'n digwydd, byddwn ni'n esbonio pam ac yn awgrymu beth y mae angen i chi ei wneud.

Os ydych chi wedi cael problemau gyda gollyngiadau ar eich pibell gyflenwi dŵr yn hanesyddol, gallai hynny fod am fod am fod eich pibell mewn cyflwr gwael, ac os felly, byddem yn argymell yn gryf eich bod chi'n adnewyddu'r bibell er mwyn atal problemau yn y dyfodol.

## Y Cynllun Cymorth gyda Gollyngiadau

Mae ein Cynllun Cymorth gyda Gollyngiadau ar gael i gwsmeriaid sy'n berchen ar ac yn byw yn eu heiddo, ond nid i eiddo rhent neu eiddo trydydd parti na busnesau.

Gallai fod hawl gennych i gael cymorth trwy ein Cynllun Cymorth Gollyngiadau, sy'n cynnwys:

- Cyfraniad ariannol tuag at waith trwsio
- Cyfraniad ariannol tuag at bibell gyflenwi newydd, gydag ailgysylltiad neu gysylltiad newydd â'n prif bibell os ydych chi'n rhannu eich cyflenwad.

Gwneir yr holl daliadau ar ôl cael cadarnhad gan Ddŵr Cymru fod y gollyngiad wedi ei drwsio, a phan ystyrir bod y cyflenwad yn "rhydd o ollyngiadau".

Taliad untro fesul pibell gyflenwi yw hwn, a bydd angen tystiolaeth o'r taliad arnom, felly cofiwch gadw unrhyw dderbynebion ac anfonebau perthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am y cyfraniadau ariannol y gallwn eu cynnig, ewch i **dwrcymru.com/cymorth**. Os toiled sy'n gollwng yw achos y gollyngiadau, efallai y gallwn ni helpu trwy ein rhaglen Cartref.

## Ffitiadau yn eich eiddo

Os byddwn ni'n ffeindio bod dŵr yn cael ei wastraffu o'ch pibellwaith neu'ch ffitiadau mewnol, byddwn ni'n eich cynghori ar drwsio'r gollyngiad. Byddwn ni'n rhoi neu'n anfon dogfennaeth atoch chi gyda rhagor o fanylion. I ddod o hyd i gontractwr agosaf neu blymwr lleol sy'n gallu helpu, rydyn ni'n argymell eich bod yn mynd i:

**WaterSafe**
watersafe.org.uk | 0333 207 9030

**Cynllun Plymwyr Cymeradwy'r Diwydiant Dŵr**
wras.co.uk | 01495 244 666

Gall cwsmeriaid preswyl gyrchu ein cynllun Toiledau sy'n Gollwng hefyd, sy'n golygu y gallwn drwsio toiledau sy'n gollwng am ddim. Mae rhagor o fanylion yn **dwrcymru.com**.

# Lwfansau

Os oes mesurydd dŵr gennych, bydd eich biliau'n seiliedig ar faint o ddŵr y mae'r mesurydd yn ei gofnodi, gan gynnwys unrhyw ddŵr sy'n cael ei wastraffu neu ei golli trwy ollyngiadau o'ch pibellwaith.

Os ni sy'n gyfrifol am y gollyngiad, byddwn ni'n canslo unrhyw daliadau dŵr a charthffosiaeth ychwanegol.

Os chi oedd yn gyfrifol am y gollyngiad, gallwn gynnig lwfans yn erbyn eich taliadau yn sgil gollyngiad.

## Pryd fyddaf i'n gymwys am lwfans?

Byddwch chi'n gymwys am lwfans os:

- Chi yw'r perchennog/deiliad, y landlord neu'r tenant sy'n talu'r bil.
- Oes gennych fesurydd dŵr.
- Ydych chi wedi trwsio'r gollyngiad cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am y gollyngiad ac nad oes yna gymorth pellach y gallwn ei gynnig.
- Ydych chi'n rhoi gwybod i ni cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad y gwaith trwsio.
- Na chafodd y gollyngiad ei achosi trwy esgeulustra.
- Nad ydych chi wedi cael lwfans ar gyfer yr un eiddo o fewn y 2 flynedd diwethaf.
- Nad ydym wedi cyfeirio'r mater at ein tîm Cyfreithiol.
- Oedd y gollyngiad ar eich pibell gyflenwi allanol ac nid ar y ffitiadau mewnol.

Os nad ydych chi'n bodloni'r meini prawf uchod, ond yn credu y dylech gael lwfans, cysylltwch â ni a byddwn ni'n ystyried eich amgylchiadau unigol.

## Os ydw i'n gymwys, pa lwfans gaf i?

Os ydych chi'n gwsmer preswyl, yn gwsmer preswyl mewn eiddo dibreswyl a ddefnyddir fel annedd domestig yn unig (e.e. fferm heb unrhyw dda byw), yn ficrofusnes (â 10 neu lai o gyflogeion) neu'n elusen gofrestredig, cewch lwfans am y taliadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer y dŵr a gollwyd trwy'r gollyngiad, a bydd hyn yn berthnasol os ydyn ni'n bilio am daliadau carthffosiaeth ar ran cwmni arall hefyd.

Os ydych chi'n gwsmer dibreswyl ac nad ydych chi'n bodloni'r meini prawf uchod, yna cewch lwfans am daliadau carthffosiaeth y dŵr a gollwyd trwy'r gollyngiad os nad yw'r dŵr a gollwyd wedi dychwelyd i'r garthffos.

Caiff unrhyw lwfans ei ôl-ddyddio am hyd at 12 mis cyn dyddiad trwsio'r gollyngiad.

## Sut mae'r lwfans yn cael ei gyfrifo?

Byddwn ni'n ailasesu eich taliadau yn seiliedig ar eich defnydd arferol o ddŵr, gan gymryd unrhyw amrywiadau tymhorol mewn defnydd i ystyriaeth os yw hynny'n berthnasol.

Os na allwn ni ddefnyddio'ch defnydd blaenorol i asesu'r lwfans, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddefnyddio darlleniadau ar ôl trwsio'r gollyngiad.

# Cwestiynau cyffredin

## Nid oes mesurydd dŵr gen i, pam na gaf i lwfans?

Rydych chi'n talu tâl blynyddol sefydlog ac nid yw'n seiliedig ar eich gwir ddefnydd o ddŵr, felly nid yw'r gollyngiad wedi effeithio ar eich taliadau. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig trwsio'r broblem fel nad oes angen i ni gymryd camau pellach.

## Beth fydd yn digwydd os Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y gollyngiad?

Os ni sy'n gyfrifol am y gollyngiad, byddwn ni'n canslo unrhyw daliadau am y dŵr a gollwyd, yn ogystal ag unrhyw daliadau carthffosiaeth cysylltiedig.

## Beth fydd yn digwydd os oes gollyngiad yn dod i'r amlwg adeg gosod fy mesurydd?

Mae'n bosibl y bydd gollyngiadau cudd yn dod i'r golwg wrth i ni osod mesurydd am y tro cyntaf. Os byddwn ni'n ffeindio gollyngiad ar y bibell gyflenwi wrth osod y mesurydd, byddwn ni'n eich cynghori am yr opsiynau sydd ar gael i chi. Ni fyddwn ni'n dechrau codi tâl ar sail y mesurydd nes bod y gollyngiad wedi ei drwsio. Os byddwn ni'n ffeindio gollyngiad wrth ddarllen y mesurydd am y tro cyntaf ar ôl ei osod, byddwn ni'n talu lwfans priodol ar ôl i'r gollyngiad gael ei drwsio.

## Beth os yw fy mesurydd yn gwasanaethu mwy nag un eiddo?

Os yw'r gollyngiad ar bibell gyflenwi sy'n gwasanaethu nifer o eiddo, byddwn ni'n rhannu'r lwfans yn erbyn y gwahanol fathau o eiddo. Er enghraifft, os yw 75% o'r dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn microfusnes breswyl a dibreswyl, a 25% mewn eiddo dibreswyl mwy, caiff lwfans dŵr a charthffosiaeth ei ddyfarnu ar gyfer 75% o gyfanswm y taliadau "gollyngiadau", a lwfans carthffosiaeth yn unig am y 25% sy'n weddill.

## Beth os nad ydw i'n fodlon ar fy lwfans?

Os ydych chi'n meddwl y dylai eich lwfans fod yn fwy na'r hyn rydyn ni wedi ei dalu i chi, yna rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r manylion ar ein tudalen cysylltu â ni, gan nodi'r rhesymau pam. Byddwn ni'n cyflawni adolygiad pellach ac yn rhannu ein penderfyniad â chi.

# Defnyddio dŵr yn ddoeth

Mae angen dŵr ar bob un ohonom ni, ond mae yna bethau syml iawn y gallwch eu gwneud i ddefnyddio llai.

## Domestig

**Toiledau sy'n gollwng**
Gall toiled sy'n gollwng fflysio cannoedd o bunnoedd i lawr y draen bob blwyddyn. Os oes dŵr yn diferynnu'n ddi-baid i fowlen eich toiled, yna mae'n debyg bod problem. Ewch i'r linc isod i weld sut y gallwn ni helpu.

**dwrcymru.com/cartref**

**Pibellau dyfrio**
Gosodwch gwn sbardun i reoli'r llif, neu gallech chi fod yn defnyddio cymaint o ddŵr ag y mae teulu'n ei ddefnyddio mewn diwrnod cyfan mewn cyn lleied ag awr.

**Dŵr glaw**
Casglwch ddŵr glaw mewn casgen ddŵr a'i ddefnyddio i ddyfrio'r ardd neu i olchi'r car.

**Tapiau sy'n diferu**
Gosodwch wasieri newydd cyn gynted â phosibl.

**Cael cawod neu fath**
Cymrwch gawod yn lle bath am y bydd hyn yn defnyddio llai o ddŵr o lawer (oni bai bod cawod pŵer gennych chi).

**Peiriannau**
Arhoswch nes bod llwyth llawn gennych cyn defnyddio eich peiriant golchi dillad neu lestri, ac os ydych chi'n chwilio am un newydd, dewiswch fodel sy'n effeithlon o ran dŵr am y bydd hynny'n arbed dŵr ac ynni i chi.

Ewch i'n gwefan am ragor o awgrymiadau i'ch helpu chi i leihau eich defnydd o ddŵr.
**dwrcymru.com/arbeddwr**

## Annomestig

**Trwsio tapiau a gorlifoedd sy'n gollwng**
Cadwch lygad ar adeiladau a phibellwaith allanol i wneud yn siŵr nad oes dŵr yn gollwng heb yn wybod i chi.

Gwnewch yn siŵr bod pob dyfais arbed dŵr, fel toiledau, wrinalau a falfiau pêl yn gweithio fel y dylen nhw.

Mae wrinalau sy'n fflysio'n ddi-baid a thapiau sy'n diferu'n gallu cynyddu'ch defnydd o ddŵr.

Insiwleiddiwch eich pibellau fel nad yw eich pibellau mewn perygl o rewi a hollti mewn tywydd oer.

**Lleihewch y dŵr fflysio**
Gosodwch ddyfeisiau disodli dŵr yn y seston.

Os oes gennych sestonau fflysh deuol, codwch nodyn mewn man amlwg i esbonio i bobl sut mae defnyddio'r ddau fflysh er mwyn atal defnydd anghywir a gwastraff.

Mae'n bosibl y bydd gan doiledau newydd orlifoedd neu ollyngfeydd sy'n rhyddhau'n uniongyrchol i'r pan, ac mae'n bosibl na fydd neb yn sylwi neu'n cymryd sylw ohonynt. Clustnodwch unrhyw doiledau â gorlifoedd mewnol ac archwiliwch nhw'n gyson am ollyngiadau.

**Prynwch offer sy'n effeithlon o ran dŵr**
Pennwch ofyniad am ddefnydd isel o dŵr wrth brynu unrhyw offer, ffitiadau neu brosesau newydd.

Mae chwistrellau pwysedd uchel yn gallu defnyddio llai o ddŵr na phibellau dyfrio confensiynol am eu bod nhw'n defnyddio pwysedd yn hytrach na llawer o ddŵr i lanhau.

Adolygwch eich defnydd o ddŵr unwaith y flwyddyn a lluniwch gynlluniau i leihau defnydd.

Addysgwch yr holl staff am fentrau arbed dŵr a mynnwch gefnogaeth y rheolwyr yn hynny o beth.

Chwiliwch am ffyrdd o ymgorffori mentrau i'ch polisi amgylcheddol ehangach.

# Y stwff cyfreithiol

Efallai nad ydych chi'n ymwybodol bod gollyngiad dŵr yn drosedd o dan Adran 73 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA 1991). Mae hynny'n golygu, os na fyddwch chi'n trwsio'r broblem, gallwn eich erlyn am adael i ffitiadau dŵr fod, neu barhau i fod, mewn cyflwr diffygiol. Y ddirwy uchaf yn hyn o beth yw £1,000.

**Dyma fanylion llawn Adran 73:**
"Os oes unrhyw berson sy'n berchennog neu'n ddeiliad ar unrhyw eiddo y mae ymgymerydd dŵr yn darparu cyflenwad dŵr ar ei gyfer yn achosi neu'n caniatáu, yn fwriadol neu trwy esgeulustra, i unrhyw ffitiad dŵr y mae'n gyfrifol amdano aros yn ddiffygiol, fod ag angen trwsio neu wedi ei adeiladu a'i addasu yn y fath fodd, neu i gael ei ddefnyddio mewn modd y mae'r dŵr a gyflenwir iddo yn, neu'n debygol o gael ei wastraffu, neu o ran y dibenion y mae'n cael ei ddarparu ar ei gyfer, yn cael ei gamddefnyddio neu ei ddefnyddio'n ddiangen, bydd y person hwnnw'n euog o drosedd ac yn atebol, ar erlyniad diannod, i drosedd hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol."

Nid gwastraffu dŵr yn unig mae gollyngiadau, maen nhw'n gallu difrodi eiddo a gerddi hefyd. Dyna pam ei bod hi'n bwysig trwsio'r gollyngiad cyn gynted â phosibl, a pham fod angen i ni osod terfyn amser ar ddatrys y broblem. Mae hynny 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad pan gawsoch wybod am y gollyngiad.

Os nad yw'r gollyngiad yn cael ei drwsio cyn pen 30 diwrnod gwaith, byddwn ni'n cyfeirio'r mater at ein tîm Cyfreithiol, a fydd yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r gwastraff dŵr. Gallai hynny gynnwys: cyflwyno hysbysiad ffurfiol i drwsio gollyngiad lle bo modd, a chodir tâl arnoch chi am gost hynny - mae adran 75(2)(b) o WIA 1991 yn rhoi'r awdurdod i ni wneud hyn; eich erlyn am wastraffu dŵr neu am unrhyw ffitiadau diffygiol; ac, yn achos cyflenwad a rennir, cyflwyno hysbysiad cyfreithiol sy'n mynnu bod yr eiddo'n gosod pibellau cyflenwi ar wahân cyn pen cyfnod o 3 mis.

Mewn argyfwng, er enghraifft os yw'r dŵr sy'n gollwng yn rhewi ar draws priffordd gyhoeddus neu'n achosi difrod i eiddo, mae'n bosibl y bydd angen i ni ddatgysylltu eich cyflenwad dŵr.

Dim ond os yw hi'n hollol angenrheidiol, a bod pob mesur arall wedi methu y byddwn ni'n gwneud hyn. Mae hyn yn gyson ag Adran 75(2)(a) o WIA 1991.

Mae hi'n bwysig ein bod ni'n rhoi gwybod i chi, yn ogystal â bod yn drosedd o dan WIA 1991, mae unrhyw ffitiadau dŵr sy'n caniatáu i ddŵr gael ei wastraffu'n mynd yn groes i Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 hefyd, sydd eto'n drosedd ac yn dwyn dirwy o hyd at £1,000.

Os ceir bod unrhyw ffitiadau dŵr yn ddiffygiol, byddwn ni'n cyflwyno hysbysiad o dor-amod chi a fydd yn caniatáu cyfnod penodol i chi eu trwsio neu eu disodli. Os na fyddwch chi'n gwneud hynny o fewn y terfyn amser, gellir eich erlyn. Weithiau bydd angen i ni ddod i mewn i'ch eiddo i archwilio'r pibellau a'r ffitiadau neu i gyflawni gwaith trwsio. Gobeithio na fydd hyn yn broblem, ond os na chaniateir mynediad i'r eiddo, mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud cais am Warant Mynediad gan y Llys Ynadon.

Rydyn ni wir yn gobeithio na fydd angen i ni wneud dim o'r uchod. Fodd bynnag, rydyn ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n rhoi gwybod i chi beth allai ddigwydd os na fyddwch chi'n trefnu bod gollyngiad yn eich eiddo'n cael ei drwsio.

# Cysylltu â ni

## Y Tîm Cwsmeriaid Busnes

Pwynt cyswllt pwrpasol Dŵr Cymru ar gyfer cwsmeriaid Open Water

**0800 260 5051**
Dydd Llun-dydd Gwener – 8am-6pm

**0800 260 5053**
Cyswllt brys y tu hwnt i oriau swyddfa

**bct@dwrcymru.com**

**dwrcymru.com/openwater**

Y Tîm Cwsmeriaid Busnes,
Blwch Post 3162 Caerdydd
CF30 0FD